Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol o godio clinigol – **Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**


Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1187A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Y sawl a gyflawnodd y gwaith oedd Katrina Febry.

# Cynnwys

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynd y tu hwnt i dargedau cyflawnrwydd a chywirdeb Cymru gyfan ar gyfer codio clinigol ac mae wedi cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o argymhellion a wnaed gennym yn 2014, ond mae lle o hyd i wneud mwy o ddefnydd o ddata codio clinigol.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Ein canfyddiadau 5

Mae perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn mesurau perfformiad cyflawnrwydd a chywirdeb yn mynd y tu hwnt i dargedau Llywodraeth Cymru 6

Mae lle o hyd i'r Ymddiriedolaeth wneud mwy o ddefnydd o ddata clinigol wedi'i godio er mwyn cefnogi gwelliant 8

Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'n hadroddiad blaenorol wedi cael eu rhoi ar waith 9

Argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith 10

Atodiadau

Cynnydd yr Ymddiriedolaeth yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014 12

Canlyniadau'r arolwg o aelodau'r bwrdd 25

Ymateb yr Ymddiriedolaeth i'n hargymhelliad newydd 27

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae codio clinigol yn golygu trosi gwybodaeth glinigol ysgrifenedig (megis diagnosis a thriniaeth claf) i fformat cod. Bydd codydd clinigol yn dadansoddi gwybodaeth am gyfnod o ofal claf ac yn aseinio codau safonedig a gydnabyddir yn rhyngwladol[1].

2 Mae data clinigol wedi'i godio o ansawdd da yn hanfodol i reoli ysbytai a gwasanaethau. Mae data wedi'i godio'n tanategu cryn dipyn o'r wybodaeth reoli o ddydd i ddydd a ddefnyddir yn y GIG ac fe'i defnyddir mewn nifer o wahanol systemau ac fe'i cyflwynir mewn gwahanol fformatau. Gellir ei ddefnyddio i roi cymorth i gynllunio gofal iechyd, dyrannu adnoddau, dadansoddi costau, cynnal asesiadau o effeithiolrwydd triniaeth a gall fod yn fan cychwyn amhrisiadwy ar gyfer nifer o archwiliadau clinigol.

3 Mae'n ofynnol i adrannau codio yng nghyrff GIG Cymru gyrraedd safonau a bennir gan Lywodraeth Cymru o ran cyflawnrwydd a chywirdeb data wedi'i godio. Mae perfformiad yn erbyn y safonau hyn yn rhan o adroddiadau blynyddol cyrff y GIG ar ansawdd data a llywodraethu gwybodaeth.

4 Yn ystod 2014-15, fe adolygodd yr Archwilydd Cyffredinol y trefniadau codio clinigol yn holl gyrff perthnasol y GIG yng Nghymru. Tynnodd y gwaith hwnnw sylw at nifer o feysydd i'w gwella megis cywirdeb codio, ansawdd cofnodion meddygol ac ymgysylltu rhwng codyddion, clinigwyr a staff cofnodion meddygol.

5 Canfuom hefyd fod cyrff y GIG yn rheolaidd yn ystyried bod codio clinigol yn rôl cefn swyddfa, a'i bod yn aml yn wir mai ychydig o gydnabyddiaeth oedd i'r wybodaeth a dealltwriaeth arbenigol yr oedd angen i staff fod yn meddu arnynt. Yn ogystal â hynny, nid oedd yr holl gyrff iechyd yn deall pwysigrwydd codio clinigol i'w busnes o ddydd i ddydd.

6 Ym mis Ebrill 2014, fe gyhoeddon ni adroddiad ar ein canfyddiadau ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) ac roedd yr adroddiad yn dod i'r casgliad canlynol: Er bod gwaith codio clinigol yn cael ei gwblhau'n brydlon yn y gorffennol,  roedd ystod o wendidau yn y trefniadau a'r broses yn effeithio ar gywirdeb data clinigol wedi'i godio yn yr Ymddiriedolaeth ac roedd prinder adnoddau'n golygu bod yr ôl-groniad mewn perthynas â chyfnodau heb eu codio bellach ar gynnydd. Canfuom fel a ganlyn:

- roedd gan godio clinigol broffil isel yn yr Ymddiriedolaeth ac roedd angen mwy o fuddsoddiad i gefnogi mwy o ffocws ar ansawdd a chywirdeb;
- roedd ansawdd codio clinigol yn cael ei wanhau gan broblemau yn gysylltiedig â gwybodaeth anhrefnus am gleifion, capasiti rheoli a goruchwylio, lefelau staffio a diffyg prosesau archwilio; ac

[1] Ar gyfer diagnosisau, y Dosbarthiad Clefydau Rhyngwladol, 10fed rhifyn (ICD-10), ac ar gyfer triniaeth, Dosbarthiad Ymyriadau a Thriniaethau OPCS fersiwn 4 (OPCS).

- roedd yr Ymddiriedolaeth yn dechrau defnyddio mwy o ddata clinigol wedi'i godio a oedd yn bodloni safonau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13 ond roedd yr ôl-groniad mewn perthynas â chyfnodau heb eu codio ar gynnydd ac, er bod y cywirdeb yn dda ar y cyfan, nodwyd gwallau mewn perthynas â chyfnodau cleifion mewnol, ac roedd angen esbonio goblygiadau'r rhain yn glir ledled y sefydliad.

7 Fe wnaethom nifer o argymhellion, a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- sicrhau ansawdd cofnodion clinigol trwy ailsefydlu'r drefn archwilio a gwella mynediad at gofnodion electronig ac ar bapur;
- adolygu'r ffordd y mae adnoddau staff yn cael eu sefydlu a strwythur yr adnoddau hynny; a
- chodi proffil codio clinigol ac ymwybyddiaeth ohono ar draws yr Ymddiriedolaeth.

8 Fel rhan o gynllun archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn 2018, rydym wedi archwilio'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr Adolygiad o Godio Clinigol yn 2014 ac unrhyw welliant mewn perfformiad o ran codio clinigol a ddeilliodd o hynny.

9 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi:

- adolygu dogfennaeth, gan gynnwys adroddiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau;
- gofyn i'r Ymddiriedolaeth hunanasesu ei chynnydd hyd yma;
- dadansoddi data codio clinigol a anfonwyd at Lywodraeth Cymru;
- ceisio barn aelodau'r bwrdd[2] ynglŷn â'u dealltwriaeth am godio clinigol; a hefyd
- cyfweld â staff i drafod cynnydd, materion cyfredol a heriau yn y dyfodol.

10 Rydym yn crynhoi ein canfyddiadau yn yr adran ganlynol. Mae Atodiad 1 yn darparu sylwebaeth benodol ar gynnydd yn erbyn pob un o'n hargymhellion blaenorol.

# Ein canfyddiadau

11 Rydym yn dod i'r casgliad bod **yr Ymddiriedolaeth wedi mynd y tu hwnt i dargedau cyflawnrwydd a chywirdeb Cymru gyfan ar gyfer codio clinigol ac mae wedi cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o argymhellion a wnaed gennym yn 2014, ond mae lle o hyd i wneud mwy o ddefnydd o ddata codio clinigol**.


[2] Cafodd nifer o gwestiynau a oedd yn ymwneud â chodio clinigol eu cynnwys yn yr arolwg o aelodau'r bwrdd a oedd yn rhan o'n gwaith Asesiad Strwythuredig yn 2018. Cafwyd cyfanswm o wyth ymateb allan o 19 o ymatebion posibl.

## Mae perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn mesurau perfformiad cyflawnrwydd a chywirdeb yn mynd y tu hwnt i dargedau Llywodraeth Cymru

12 Mae gan Lywodraeth Cymru ddau darged Haen 1 sy'n gysylltiedig â chodio y mae'n ofynnol i gyrff y GIG eu cyrraedd. Mae'r rhain yn ymwneud â chyflawnrwydd a chywirdeb.

13 Bob blwyddyn, mae cyrff y GIG yn anfon data at Lywodraeth Cymru sy'n dangos eu perfformiad yn erbyn y targed Haen 1 ar gyfer **cyflawnrwydd** codio. Y targed yw y dylai 95% o'r cyfnodau mewn ysbytai fod wedi'u codio o fewn un mis i ddyddiad terfyn y cyfnod. Mae angen i gyrff y GIG gyrraedd y targed hwn yn fisol (yn hytrach nag ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol). Dengys Arddangosyn 1 berfformiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn y mesur cyflawnrwydd rhwng Ebrill 2017 a Rhagfyr 2018. Ym mhob mis heblaw un yn y cyfnod hwnnw, aeth perfformiad y tu hwnt i'r targed o 95%. Mewn 13 o'r 21 mis, aeth perfformiad y tu hwnt i 99%.

Arddangosyn 1: y ganran a godiwyd o fewn un mis i ddyddiad terfyn y cyfnod




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata codio clinigol a gyflwynwyd gan gyrff iechyd mewn adroddiadau i Lywodraeth Cymru.


14 Fe wnaeth mater technegol a oedd yn atal data ynghylch gweithgarwch radiotherapi rhag cael ei borthi'n awtomatig i mewn i CaNISC[3] arwain at ostyngiad mewn perfformiad codio ym mis Mehefin 2018. Cymerodd tua chwe wythnos i dîm Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth ymchwilio i'r mater a'i ddatrys. Yn ystod yr amser hwn nid oedd y tîm codio clinigol yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i godio gweithgarwch radiotherapi. Unwaith yr oedd y mater wedi cael ei ddatrys, fe ddefnyddiodd yr Ymddiriedolaeth oramser i glirio'r ôl-groniad o godio clinigol a oedd wedi datblygu, a chafodd yr ôl-groniad ei glirio erbyn diwedd 2018.

15 Fel rhan o'n gwaith maes, fe ofynnon ni am y sefyllfa o ran yr ôl-groniad ym mhob blwyddyn ariannol rhwng 2014-15 a 2017-18. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym mai dim ond ôl-groniad bach iawn a oedd wedi'i nodi yn eu hadroddiad ar gyfer pob blwyddyn. Mae hon yn sefyllfa gadarnhaol.

16 Bob blwyddyn, mae Tîm Safonau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gwirio **cywirdeb** codio clinigol. Maent yn gwneud hyn trwy adolygu sampl o gyfnodau wedi'u codio a gwirio'r wybodaeth yn erbyn tystiolaeth yng nghofnodion meddygol y cleifion i asesu cywirdeb. Targed Llywodraeth Cymru yw bod cyrff y GIG yn dangos gwelliannau yng nghywirdeb codio clinigol dros amser. Dengys Arddangosyn 2 sgoriau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y mesur cywirdeb rhwng 2014-15 a 2018-19; dros y cyfnod hwnnw cafwyd gwelliant o 10.2% mewn perfformiad. Nododd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn eu hadroddiad ar godio clinigol yn 2018-19 (Gorffennaf 2018) fod yr Ymddiriedolaeth wedi mynd y tu hwnt i'r safonau gofynnol a argymhellir ar gyfer GIG Cymru unwaith eto a bod sgoriau cywirdeb wedi gwella ers yr archwiliad blaenorol a gwblhawyd yn 2017-18 (Chwefror 2018).

[3] System gyfrifiadurol ar-lein sy'n dal gwybodaeth am ryngweithiadau claf â gweithwyr iechyd proffesiynol mewn perthynas â gofal canser yn bennaf yw CaNISC.

Arddangosyn 2: canran y cyfnodau a godiwyd yn gywir




Ffynhonnell: Canlyniadau adolygiadau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru o gywirdeb codio clinigol 2014-2019.

* Sylwer: oherwydd capasiti yn nhîm codio clinigol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, cynhaliwyd un adolygiad o gywirdeb yn ystod y cyfnod 2015-16 a 2016-17.

## Mae lle o hyd i'r Ymddiriedolaeth wneud mwy o ddefnydd o ddata clinigol wedi'i godio er mwyn cefnogi gwelliant

17 Yn 2014, canfuom nad oedd pob un o gyrff y GIG yn deall pwysigrwydd ehangach codio clinigol i'w busnes a'u bod yn colli cyfleoedd i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn fwy helaeth. Er enghraifft, i gynllunio a monitro gwasanaethau, gellir defnyddio data clinigol wedi'i godio i:

- asesu nifer y cleifion sy'n dilyn llwybrau clinigol penodol; a
- darparu data cymharol ynghylch gweithgarwch i arfarnu cynhyrchiant, ansawdd a pherfformiad.

18 Yn ystod ein cyfweliadau, canfuom fod yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod data codio clinigol yn cael ei ddefnyddio ar lefel genedlaethol i adnabod nifer yr achosion o glefydau a'i fod yn gallu llywio gwelliannau mewn llwybrau clinigol megis y Llwybr Canser Unigol sy'n datblygu. Roedd gwahaniaeth barn wrth ystyried i ba raddau y mae data codio clinigol yn cael ei ddefnyddio gan yr

Ymddiriedolaeth i gefnogi gwelliant. Gallai data clinigol wedi'i godio gael ei ddefnyddio gan yr Ymddiriedolaeth i;

- adnabod nifer yr achosion o ganser i helpu i oleuo gwaith cyrff iechyd eraill i atal canser a chefnogi diagnosis cynnar;
- cymharu'r galw mewn gwirionedd â'r galw disgwyliedig i sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth y capasiti gofynnol;
- cefnogi gwaith ail-ddilysu meddygol trwy sicrhau bod deilliannau cleifion yn gyson â'r disgwyliadau; a
- darparu sail bosibl i oleuo ymchwil a gyflawnir gan yr Ymddiriedolaeth.

19 Yn ein tyb ni, mae cyfle i'r Ymddiriedolaeth adolygu i ba raddau y mae'n defnyddio data clinigol wedi'i godio ar hyn o bryd i ganfod a allai ddefnyddio'r data yn fwy. Mae data codio clinigol yr Ymddiriedolaeth yn cael sgôr uchel o ran cywirdeb ac amseroldeb ac mae'n ffynhonnell wybodaeth gyfoethog, a allai gael ei defnyddio i oleuo'r broses o gynllunio ar gyfer y galw a chynllunio capasiti a gwella deilliannau ar gyfer cleifion.

## Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'n hadroddiad blaenorol wedi cael eu rhoi ar waith

20 Mae Arddangosyn 3 yn crynhoi statws yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014.

Arddangosyn 3: Statws cynnydd yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014

| Cyfanswm yr argymhellion | Wedi'u rhoi ar waith | Ar y gweill | Yn hwyr | Wedi'u disodli |
|---|---|---|---|---|
| 16 | 12 | 3 | 1 | 0 |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

21 Mae ein gwaith dilynol wedi canfod bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014.

22 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella'r modd y rheolir cofnodion papur ac electronig i sicrhau eu bod yn gwella ansawdd a cofnodion meddygol sy'n cefnogi gwaith codio clinigol a mynediad at y cofnodion hynny. Mae safonau Coleg Brenhinol y Meddygon (RCP) ar gyfer cofnodion meddygol wedi cael eu rhoi ar waith, ac mae rhaglen archwilio wedi cael ei sefydlu gan yr Ymddiriedolaeth i fonitro cydymffurfiaeth â'r safonau. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynyddu'r wybodaeth a gaiff ei dal ar gofnodion electronig i leihau'r ddibyniaeth ar gofnodion papur, ac o ganlyniad mae wedi lleihau'r amser a dreulir gan godyddion clinigol yn olrhain cofnodion papur. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi galluogi'r tîm codio clinigol i oleuo'r broses o gynllunio systemau electronig i ddisodli'r rhai presennol, gyda'r

nod o sicrhau y bydd y systemau newydd, unwaith y byddant wedi'u rhoi ar waith, yn parhau i gefnogi gwaith codio clinigol.

23 Ers ein hadolygiad blaenorol, mae nifer staff codio clinigol yr Ymddiriedolaeth[4] wedi cynyddu, ac mae swyddi newydd ar gyfer arweinwyr tîm codio clinigol wedi cael eu creu. Mae'r newidiadau i strwythur y tîm a'r cynnydd mewn capasiti wedi galluogi rheolwyr y tîm i roi mwy o gymorth i godyddion clinigol ac wedi arwain at ddilysu ac archwilio gwaith codio clinigol yn fwy ac yn well. Hefyd, erbyn hyn mae llwybr gyrfa clir ar gyfer staff codio clinigol.

24 Mae ymgysylltiad â staff meddygol wedi cael ei gryfhau trwy ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth o godio clinigol a thrwy ddarparu hyfforddiant sefydlu ar godio clinigol ar gyfer staff meddygol.

25 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynyddu proffil codio clinigol trwy ddarparu diweddariadau rheolaidd ar berfformiad ar gyfer un o bwyllgorau allweddol y Bwrdd. Er bod perfformiad yr Ymddiriedolaeth o ran codio clinigol yn mynd y tu hwnt i dargedau Llywodraeth Cymru, byddai o fudd pe bai'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â'n hargymhelliad i ddarparu papur briffio sy'n nodi beth yw codio clinigol a goblygiadau posibl codio clinigol gwael.

# Argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith

26 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi gwneud un argymhelliad ychwanegol, a nodir yn Arddangosyn 4, a darperir ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r argymhelliad hwn yn Atodiad 3. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth barhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'n pedwar argymhelliad blaenorol hefyd. Caiff yr argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith eu nodi yn Arddangosyn 5.

Arddangosyn 4: argymhelliad newydd

| **Argymhelliad 2019** | |
|---|---|
| **Defnyddio data codio clinigol i gefnogi gwelliant** | |
| A1 | Adolygu i ba raddau y mae data clinigol wedi'i gofio'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ganfod a allai'r Ymddiriedolaeth wneud mwy o ddefnydd o'r data i gefnogi gwelliant. |

[4] Lefel staffio sy'n ofynnol.

Arddangosyn 5: argymhellion sy’n dal heb gael neu sy’n hwyr yn cael eu rhoi ar waith

| Argymhellion a wnaed yn 2014 sy’n dal heb gael eu rhoi ar waith | |
|---|---|
| **Rheoli Cofnodion Clinigol**<br>Gwella’r broses o reoli cofnodion meddygol electronig ac ar bapur er mwyn sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad atynt, yn cefnogi’r broses godio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys: | |
| A1d | Mabwysiadu dull safonol o gofnodi gwybodaeth o fewn CaNISC er mwyn cefnogi’r broses o adalw gwybodaeth e.e. trwy gyflwyno fformat safonol ar gyfer teitlau dogfennau wedi’u sganio. |
| **Ymgysylltu â’r Bwrdd**<br>Codi proffil codio clinigol ar lefel Bwrdd yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau bod goblygiadau codio clinigol ar gyfer rheoli perfformiad, a’r prosesau rheoli ehangach yn y GIG, yn cael eu deall yn llawn. Dylai hyn gynnwys: | |
| A4a | Symleiddio llinellau atebolrwydd ar gyfer codio clinigol i’r Bwrdd i sicrhau bod materion proffesiynol a gweithredol yn cael eu cydgysylltu. |
| A4b | Darparu deunydd briffio byr sy’n amlinellu’n glir ystyr codio clinigol a goblygiadau codio clinigol gwael (gan adlewyrchu amseroldeb, cyflawnrwydd a chywirdeb) ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol. |
| A4c | Sicrhau bod papurau a ategir gan ddata clinigol wedi’i godio yn cynnwys datganiad sy’n amlinellu cadernid y data. |

# Atodiad 1

## Cynnydd yr Ymddiriedolaeth yn erbyn yr argymhellion a wnaed gennym yn 2014

Arddangosyn 6: asesiad o gynnydd

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Rheoli cofnodion meddygol**<br>A1: Gwella'r broses o reoli cofnodion meddygol electronig ac ar bapur er mwyn sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad atynt, yn cefnogi'r broses godio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys: | | | |
| a) Adolygu ac archwilio'r posibilrwydd o fabwysiadu a gweithredu safonau Coleg Brenhinol y Ffisigwyr (RCP) ar gyfer cofnodion meddygol. | Ionawr 2015 | Wedi'i roi ar waith | Fe awgrymodd ein hadolygiad yn 2014 mai dealltwriaeth gyfyngedig oedd gan staff meddygol a oedd yn gweithio yn yr Ymddiriedolaeth am safonau Coleg Brenhinol y Meddygon a pha un a oedd yr Ymddiriedolaeth wedi'u mabwysiadu. Canfuom hefyd mai dealltwriaeth gyfyngedig oedd ymhlith staff meddygol am safonau mewnol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer cofnodion meddygol.<br>Ers ein hadolygiad, mae safonau Coleg Brenhinol y Meddygon wedi cael eu mabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Polisi Rheoli Cofnodion cyfredol (2018) yn datgan bod 'Safon Iechyd a Gofal 3.5 ar Gadw Cofnodion[5] yn helpu'r Ymddiriedolaeth … i sicrhau arfer da o ran cadw cofnodion'. Darperir hyfforddiant cofnodion meddygol mewn cyrsiau sefydlu ar gyfer staff meddygol. |

[5] Daeth y Safonau Iechyd a Gofal i rym ar 1 Ebrill 2015 a'u nod yw darparu fframwaith cyson ar gyfer cyrff iechyd Cymru i wella ansawdd a diogelwch darpariaeth gofal iechyd. Mae Safon Iechyd a Gofal 3.5 ar Gadw Cofnodion yn datgan: 'Paper and electronic clinical record quality is improved through adoption of the Academy of Medical Royal Colleges standards for the clinical structure and content of patient records'.

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Rheoli cofnodion meddygol**<br>A1: Gwella’r broses o reoli cofnodion meddygol electronig ac ar bapur er mwyn sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad atynt, yn cefnogi’r broses godio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys: | | | |
| b) Datblygu rhaglen archwilio cofnodion meddygol er mwyn darparu sicrwydd bod ansawdd cofnodion meddygol yn gwella. | Gorffennaf 2014 | Wedi’i roi ar waith | Roedd ein gwaith yn 2014 yn cynnwys adolygiad samplu o nodiadau achosion mewn cofnodion meddygol papur i asesu’r modd yr oeddent yn cydymffurfio â safonau Coleg Brenhinol y Meddygon. Daethom i’r casgliad fod lefel dda o gydymffurfio â safonau Coleg Brenhinol y Meddygon.<br>Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod rhaglen archwilio ar gyfer cofnodion meddygol wedi cael ei sefydlu ers ein hadolygiad yn 2014 a’i bod yn cael ei chynnal yn chwarterol. Mae canfyddiadau archwilio’n cael eu cyflwyno i’r Grŵp Cofnodion Meddygol. Mae’r Rheolwr Codio Clinigol (neu yn ei habsenoldeb, un o arweinwyr y tîm codio clinigol) yn mynychu’r Grŵp Cofnodion Meddygol. Mae hyn yn gyfle i godi unrhyw faterion codio clinigol sy’n ymwneud ag ansawdd cofnodion meddygol. Canfu Adroddiad Codio Clinigol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru 2017-18 (Chwefror 2018) fod nodiadau achosion cleifion yn yr Ymddiriedolaeth mewn cyflwr da ac yn cael eu cynnal yn dda. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Rheoli cofnodion meddygol**<br>A1: Gwella'r broses o reoli cofnodion meddygol electronig ac ar bapur er mwyn sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad atynt, yn cefnogi'r broses godio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys: | | | |
| c) Adolygu'r ffordd mae cofnodion iechyd yn cael eu holrhain yn y Ganolfan Ganser er mwyn lleihau'r amser mae'r tîm codio clinigol yn ei dreulio ar y gwaith hwn. | Mai 2014 | Wedi'i roi ar waith | Yn 2014, canfu ein hadolygiad samplu fod y tîm codio clinigol yn cael bron yr holl nodiadau achosion papur o fewn pythefnos i ddiwedd y cyfnod o ofal. Fe ofynnon ni i'r tîm codio clinigol gofnodi faint o amser oedd yn cael ei dreulio'n olrhain ac yn adfer nodiadau achosion dros gyfnod o bythefnos; canfuom, ar gyfartaledd, fod codyddion clinigol yn treulio ychydig dros saith y cant o'u hamser ar y gweithgareddau hyn.<br>Tua dwy flynedd yn ôl, yn dilyn cyfnod prawf, rhoddodd yr Ymddiriedolaeth fenter arbed papur ar waith i leihau dibyniaeth y codyddion clinigol ar nodiadau achosion papur. Wrth godio derbyniadau cleifion achosion dydd a mynychwyr dydd rheolaidd, bellach mae'r tîm codio clinigol yn echdynnu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol o systemau electronig CaNISC a Chemocare. Wrth godio cyfnodau cleifion mewnol[6]. Wrth godio cyfnodau cleifion mewnol, mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth y mae ar y tîm codio clinigol ei hangen wedi'i chynnwys yn yr un systemau electronig, ond mae peth gwybodaeth ychwanegol wedi'i chofnodi mewn nodiadau achosion papur. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod y fenter arbed papur yn golygu bod 90% o'r wybodaeth codio clinigol yn cael ei dal yn electronig erbyn hyn (daw'r 10% sy'n weddill o nodiadau achosion papur sy'n ymwneud â chyfnodau cleifion mewnol).<br>Unwaith y mae claf mewnol yn cael ei ryddhau neu ei drosglwyddo o Ganolfan Ganser Felindre, gellir rhyddhau'r rhan fwyaf o gofnodion papur yn syth i'r tîm codio clinigol, ond efallai y bydd angen cadw rhai cofnodion am yn hwy, i'w gwneud yn bosibl ychwanegu rhagor o wybodaeth (megis cofnod o ohebiaeth). Codyddion clinigol sy'n gyfrifol am adfer y nodiadau achosion, ac nid ydynt yn dechrau codio ar gyfer claf nes eu bod wedi cael yr holl nodiadau achosion. Yn ein hadolygiad diweddar ni, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod nodiadau achosion papur yn hawdd i'w hadfer fel rheol (dim ond dwy ward sydd), er bod angen olrhain ac adfer y nodiadau achosion papur o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, mae'r fenter arbed papur wedi lleihau'n sylweddol yr amser y mae'r tîm codio clinigol yn ei dreulio'n olrhain ac adfer nodiadau achosion. |

[6] System gyfrifiadurol a ddefnyddir ar gyfer rhagnodi cemotherapi yw Chemocare.

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Rheoli cofnodion meddygol**<br>A1: Gwella'r broses o reoli cofnodion meddygol electronig ac ar bapur er mwyn sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad atynt, yn cefnogi'r broses godio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys: | | | |
| d) Mabwysiadu dull safonol o gofnodi gwybodaeth o fewn CaNISC er mwyn cefnogi'r broses o adalw gwybodaeth e.e. trwy gyflwyno fformat safonol ar gyfer teitlau dogfennau wedi'u sganio. | Ionawr 2015 | Ar y gweill | O ran gwybodaeth a ddelir yn y system CaNISC, canfu ein hadroddiad yn 2014;<br>• nad oedd ffordd rwydd o adfer gwybodaeth o CaNISC a bod rhaid i'r tîm codio clinigol chwilio trwy gofnod y claf yn ei gyfanrwydd i ddod o hyd i'r wybodaeth y mae ei hangen arnynt i godio cyfnod gofal penodol;<br>• nad oedd gwybodaeth wastad yn cael ei chofnodi'n gyson yn y system, gyda staff yn cofnodi'r un wybodaeth mewn ardaloedd gwahanol yn y system; ac<br>• nad oedd cysondeb o ran enwi dogfennau wedi'u sganio a'u lanlwytho, a oedd yn golygu bod codyddion clinigol yn aml yn gorfod agor yr holl ddogfennau wedi'u sganio i weld a oeddent yn cynnwys gwybodaeth berthnasol.<br>Canfu Adroddiad Codio Clinigol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru 2017-18 (Chwefror 2018) fod y tîm codio clinigol yn dal i gael trafferth echdynnu gwybodaeth berthnasol o CaNISC. Daeth adroddiad Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru i'r casgliad fod data'n dal i gael ei gofnodi'n anghyson (mewn perthynas â diagnosis a chydforbidrwydd y claf) o ganlyniad i strwythur y system, a bod y tîm codio clinigol yn dal i orfod adolygu'r cofnod cyfan i ddod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol. |

]

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Rheoli cofnodion meddygol**<br>A1: Gwella'r broses o reoli cofnodion meddygol electronig ac ar bapur er mwyn sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad atynt, yn cefnogi'r broses godio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys: | | | |
| d) Mabwysiadu dull safonol o gofnodi gwybodaeth o fewn CaNISC er mwyn cefnogi'r broses o adalw gwybodaeth e.e. trwy gyflwyno fformat safonol ar gyfer teitlau dogfennau wedi'u sganio. | Ionawr 2015 | Ar y gweill | Mae'r angen i fynd i'r afael â strwythur gwybodaeth a gofnodir yn CaNISC wedi cael ei ddisodli gan ddechrau rhaglen i ddisodli CaNISC am bod y system wedi cyrraedd 'diwedd ei hoes'. Bydd system CaNISC yn cael ei disodli â System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS), a bydd hynny'n cael ei ategu gan ail system a fydd yn cael ei chyflwyno, sef Porthol Clinigol Cymru (WCP)[7]. Bydd rhoi WPAS a WCP ar waith yn galw am waith cynllunio a pharatoi sylweddol, gan gynnwys cwmpasu, mudo a phrofi data. Yn ei adroddiad yn 2017-18, argymhellodd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru y dylai tîm codio clinigol yr Ymddiriedolaeth gael ei gynnwys yn yr holl drafodaethau yn y rhaglen newydd i sicrhau bod lleoliad data cleifion yn cael ei safoni ac i helpu i adnabod sut i fynd i'r afael â materion echdynnu data sy'n gysylltiedig â hanes meddygol blaenorol cleifion.<br>Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod Pennaeth Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth Canolfan Ganser Felindre (y mae'r Rheolwr Codio'n atebol iddo) yn aelod tîm craidd o weithgorau gweithredu WPAS. Hefyd, mae aelodau o'r tîm codio clinigol yn cyfranogi yn y gweithgorau gweithredu. Ffrwd waith allweddol yw dadansoddiad o'r bylchau i ganfod unrhyw ymarferoldeb o fewn CaNISC nad yw'n cael ei ddarparu yn y ddwy system newydd ar hyn o bryd. Nod y gwaith hwn yw canfod datblygiadau y mae eu hangen i sicrhau nad oes unrhyw ymarferoldeb yn cael ei golli. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dweud wrthym, ar adeg ein gwaith maes, bod ceisiadau gan y tîm codio clinigol i fynd i'r afael ag ymarferoldeb coll wedi cael eu cytuno ac wedi arwain at ddatblygiadau sydd yn yr arfaeth; mae hyn yn cynnwys dangosfwrdd codio clinigol a fydd o fudd i gyrff iechyd eraill yng Nghymru sy'n defnyddio WPAS. |

[7] Bydd manteision niferus i fudo i systemau cenedlaethol, sy'n cynnwys cysondeb casglu data ac ansawdd data, integreiddio gwell â chyrff iechyd eraill a gofal sylfaenol, effeithlonrwydd wrth archebu profion, mynediad gwell at ganlyniadau profion, a'r gallu i gasglu data o atgyfeiriad claf nes ei fod yn cael ei ryddhau.

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Rheoli cofnodion meddygol**<br>A1: Gwella'r broses o reoli cofnodion meddygol electronig ac ar bapur er mwyn sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad atynt, yn cefnogi'r broses godio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys: | | | |
| d) Mabwysiadu dull safonol o gofnodi gwybodaeth o fewn CaNISC er mwyn cefnogi'r broses o adalw gwybodaeth e.e. trwy gyflwyno fformat safonol ar gyfer teitlau dogfennau wedi'u sganio. | Ionawr 2015 | Ar y gweill | Cafodd confensiwn enwi safonol ar gyfer dogfennau wedi'u sganio a lanlwythir i CaNISC ei gyflwyno ar ôl ein hadolygiad yn 2014. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym er bod y datblygiad hwn yn ddefnyddiol, fod y tîm codio clinigol yn dal i deimlo bod angen agor yr holl ddogfennau wedi'u sganio i sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth ofynnol yn cael ei hepgor. Weithiau nid yw dogfennau wedi'u sganio'n hawdd i'w darllen ac mae materion gyda sefydlogrwydd CaNISC yn golygu bod y system yn aml yn cau i lawr pan agorir dogfennau wedi'u sganio. Dylai'r mater diwethaf gael ei ddatrys unwaith y caiff CaNISC ei disodli. Mae gan godyddion clinigol fynediad at y WCP hefyd sy'n dal dogfennaeth cleifion (megis gohebiaeth, llythyrau hysbysu ynghylch rhyddhau ac asesiadau). Mae dogfennau a ddelir yn y system hon yn cydymffurfio â'r confensiwn enwi safonol a rhaid iddynt gael eu tagio â metadata sy'n helpu i sicrhau y darperir yr wybodaeth ofynnol. |
| **Adnoddau Codio Clinigol**<br>A2: Cryfhau'r broses o reoli timau codio clinigol i sicrhau bod data codio clinigol o ansawdd da yn cael ei greu. Dylai hyn gynnwys: | | | |
| a) Cynyddu nifer y staff yn y tîm codio clinigol i fynd i'r afael â'r materion ansawdd a nodir yn yr adroddiad hwn. | Gorffennaf 2014 | Wedi'i roi ar waith | Ar 30 Medi 2013, roedd cyfanswm nifer yr aelodau o staff cyfwerth ag amser llawn a oedd yn cael eu cyllido yn nhîm codio clinigol yr Ymddiriedolaeth yn 6.55 ac roedd yn cynnwys wyth aelod o staff.<br>Yn dilyn ein hadroddiad yn 2014, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad o strwythur a nifer staff y tîm codio clinigol. Wedi hynny, cynyddwyd nifer y staff yn y tîm codio clinigol, a chrëwyd dwy swydd Band 5 newydd ar gyfer arweinwyr y tîm codio clinigol. Ar 31 Mawrth 2018, roedd nifer yr aelodau o staff a oedd yn cael eu cyllido yn y tîm codio clinigol yn 10.78 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn. Roedd nifer gwirioneddol y staff cyfwerth ag amser llawn yn eu swyddi'n 10.44 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn, sydd ychydig yn is na'r nifer a oedd yn cael eu cyllido; mae'r staff Band 4 yn eu swyddi 0.34 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn llai na'r nifer a gyllidir. Mae 12 aelod o staff yn y tîm ac nid oes unrhyw swyddi gwag. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau Codio Clinigol**<br>A2: Cryfhau'r broses o reoli timau codio clinigol i sicrhau bod data codio clinigol o ansawdd da yn cael ei greu. Dylai hyn gynnwys: | | | |
| b) Adolygu strwythur y tîm er mwyn darparu cyfle i ddatblygu llwybr gyrfa clir a gweithredu'r cymhwyster codydd clinigol achrededig. | Gorffennaf 2014 | Wedi'i roi ar waith | Ar adeg ein hadolygiad yn 2014, roedd yr Ymddiriedolaeth newydd benodi dau hyfforddai Band 3 am bod yr Ymddiriedolaeth wedi methu â recriwtio ar lefel Band 4. Ar y pryd, roedd yn hanfodol bod recriwtiaid Band 4 eisoes yn meddu ar y Cymhwyster Cenedlaethol Codio Clinigol (NCCQ).<br>Ers 2014, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael gwared ar y gofyniad i recriwtiaid Band 4 fod yn meddu ar y cymhwyster NCCQ, a gofyniad dymunol ydyw bellach, yn hytrach na hanfodol. Rhaid i godyddion clinigol Band 3 dan hyfforddiant gyrraedd y safonau gofynnol mewn dau archwiliad dilynol (a gwblheir chwe mis ar wahân) i gamu ymlaen i swydd Band 4. Cafwyd gwared ar y gofyniad i gwblhau'r cymhwyster NCCQ am ei fod yn ei gwneud yn ofynnol hyfforddi mewn mathau o gyfnodau o ofal nad yw'r Ymddiriedolaeth yn eu darparu (er bod yr Ymddiriedolaeth yn dal i ganiatáu i godyddion clinigol ddilyn y cymhwyster os ydynt yn dymuno gwneud). Mae'r newid hwn wedi helpu'r Ymddiriedolaeth i recriwtio codyddion clinigol Band 4 yn llwyddiannus.<br>Mae creu swyddi arweinwyr tîm codio clinigol Band 5 (Argymhelliad 2a) yn darparu llwybr dilyniant gyrfa clir a deniadol ar gyfer codyddion clinigol.<br>Mae'r Rheolwr Codio Clinigol, y ddau arweinydd tîm ac un codydd clinigol Band 4 yn meddu ar y cymhwyster NCCQ. Mae'r holl godyddion clinigol wedi cyflawni isafswm y gofynion hyfforddi trwy gwblhau'r Cwrs Sylfaen Codio Clinigol. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau Codio Clinigol**<br>A2: Cryfhau'r broses o reoli timau codio clinigol i sicrhau bod data codio clinigol o ansawdd da yn cael ei greu. Dylai hyn gynnwys: | | | |
| c) Creu swydd goruchwyliwr i gefnogi'r Rheolwr Codio Clinigol fel y gall ddatblygu archwiliadau a darparu cymorth arall i'r codyddion er mwyn gwella ansawdd. | Rhagfyr 2014 | Wedi'i roi ar waith | Fe nodon ni yn ein hadroddiad yn 2014 fod bwlch sylweddol mewn capasiti rheoli a goruchwylio. Canfuom fod y galwadau ar amser y Rheolwr Codio Clinigol yn golygu mai capasiti cyfyngedig oedd ganddi i fentora a chefnogi staff codio clinigol. Roedd diffyg rôl arweinydd tîm codio clinigol yn golygu bod y cyfrifoldeb am fentora a rhoi cymorth i hyfforddeion Band 3 newydd yn syrthio i'r codyddion clinigol Band 4, ac weithiau i hyfforddai Band 3 a oedd wedi rhoi gwasanaeth hwy. Canfu ein hadolygiad yn 2014 hefyd fod y cyfyngiadau ar gapasiti'r Rheolwr Codio Clinigol yn golygu nad oedd yn gallu cwblhau archwiliadau codio clinigol rheolaidd.<br>Mae creu dwy swydd arweinydd tîm codio clinigol wedi darparu capasiti goruchwyliol ychwanegol. Mae arweinwyr y tîm codio clinigol yn gyfrifol am reolaeth feunyddiol ar y tîm codio clinigol, monitro llwythi gwaith a bod yn anogwyr, yn fentoriaid ac yn hyfforddwyr ar gyfer aelodau'r tîm. Mae arweinwyr y tîm codio clinigol yn cynnal archwiliadau misol o gywirdeb gwaith codio pob codydd clinigol hefyd ac yn rhoi adborth ar ganlyniadau'r archwiliadau.<br>Dywedodd y tîm codio clinigol wrthym fod trefniadau cymorth ar gyfer aelodau'r tîm yn dda, a bod aelodau'r tîm yn gallu cael mynediad at hyfforddiant gofynnol.<br>Mae'r cynnydd mewn capasiti goruchwyliol wedi galluogi'r Rheolwr Codio Clinigol i gynnal archwiliadau rheolaidd. Mae'r Rheolwr Codio Clinigol yn Archwilydd Codio Clinigol Achrededig ac yn cynnal archwiliadau gan ddefnyddio Methodoleg Archwilio Codio Clinigol Gwasanaeth Dosbarthiadau'r GIG. Yn ogystal â chynnal archwiliadau, mae'r Rheolwr Codio Clinigol yn rhedeg adroddiadau dilysu'n rheolaidd i ganfod gwallau sylfaenol yn y data wedi'i godio; cofnodir canfyddiadau'r archwiliadau ar y dangosfwrdd codio clinigol. Defnyddir canfyddiadau archwilio i wella a sicrhau ansawdd data wedi'i godio, a chaiff y canlyniadau eu rhannu gydag aelodau'r tîm a'u defnyddio i adnabod anghenion hyfforddi. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau Codio Clinigol**<br>A2: Cryfhau'r broses o reoli timau codio clinigol i sicrhau bod data codio clinigol o ansawdd da yn cael ei greu. Dylai hyn gynnwys: | | | |
| d) Sefydlu a chynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd ac arfarniadau unigol er mwyn darparu adborth rheolaidd i staff ar faterion sy'n codi trwy ddilysu ac archwilio. | Ionawr 2014 | Wedi'i roi ar waith | Mae'r tîm codio clinigol bellach yn cwrdd yn chwarterol. Mae'r cyfarfodydd yn gyfle i drafod canfyddiadau archwilio a rhannu gwersi. Os yw gwaith archwilio'n canfod materion y mae angen mynd i'r afael â hwy, rhoddir adborth ar unwaith i'r aelod o'r tîm a godiodd y data ac, os yn briodol, rhennir gwersi gyda'r tîm ehangach. Darperir adborth o'r fath yn barhaus, i sicrhau gweithredu amserol.<br>Mae arweinwyr y tîm codio clinigol yn gyfrifol am gynnal arfarniadau aelodau'r tîm, ac mae anghenion hyfforddi a ganfuwyd yn ystod archwiliadau'n cael eu bwydo i mewn i gynlluniau datblygu personol. Canfu ein hadolygiad fod pob un o'r 12 aelod o'r tîm wedi cael arfarniad o berfformiad ac adolygiad o ddatblygiad personol yn 2017-18.<br>Mae arweinwyr y tîm codio clinigol yn paratoi cwisiau codio clinigol hefyd i'r tîm codio clinigol rannu gwersi. |
| e) Monitro a rheoli lefelau cynhyrchu uchel i sicrhau nad yw'r angen i fod yn amserol yn effeithio ar gywirdeb codio clinigol. | Mawrth 2015 | Wedi'i roi ar waith | Canfu ein hadolygiad samplu o godio clinigol yn 2014 fod 100% o'r cofnodion wedi'u codio o fewn un mis, ond amlygodd ein hadroddiad hefyd fod cywirdeb codio clinigol yn yr Ymddiriedolaeth yn is na'r safonau a argymhellir. Bryd hynny, canfu'r Ymddiriedolaeth fod yr ymgyrch i gyrraedd y targedau perfformiad cyflawnrwydd yn effeithio ar gywirdeb codio clinigol.<br>Canfu ein gwaith diweddar fod rhaglen archwilio'r Ymddiriedolaeth yn darparu sicrwydd nad yw lefelau cynhyrchiant yn effeithio ar gywirdeb. Mae data diweddar ar berfformiad o ran cyflawnrwydd a chywirdeb (Arddangosion 1 a 2) yn dangos bod cywirdeb codio clinigol wedi gwella ers 2014. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu â staff meddygol**<br>A3: Cryfhau'r broses ymgysylltu â staff meddygol i sicrhau bod swyddogaeth gadarnhaol meddygon yn y broses godio clinigol yn cael ei chydnabod. Dylai hyn gynnwys: | | | |
| a) Codi ymwybyddiaeth o'r broses codio clinigol a fabwysiadwyd gan y Ganolfan Ganser trwy sesiynau hyfforddi ar gyfer staff meddygol, yn ogystal â phresenoldeb mewn cyfarfodydd priodol megis sesiynau archwilio. | Mai 2014 | Wedi'i roi ar waith | Yn 2014, canfuom fod cyfle i wella ymgysylltiad clinigol â chodio clinigol. Canfuom nad oedd codio clinigol wedi bod yn rhan o hyfforddiant sefydlu i feddygon iau, a bod hyfforddiant codio clinigol i staff meddygol yn gyfyngedig.<br>Yn dilyn ein hadroddiad, fe drefnodd yr Ymddiriedolaeth sesiynau codi ymwybyddiaeth o godio clinigol ar gyfer staff meddygol. Bellach mae arweinwyr y tîm codio clinigol yn darparu hyfforddiant codio clinigol yn ystod hyfforddiant sefydlu meddygon iau. Hefyd, darperir hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol pwrpasol ar gyfer staff meddygol i weddu i anghenion unigolion neu grwpiau o staff yn rheolaidd. |
| b) Codi ymwybyddiaeth meddygon ymgynghorol fel eu bod yn gwybod lle mae'r tîm codio clinigol wedi'i leoli. | Mai 2014 | Wedi'i roi ar waith | Fel ar adeg ein hadolygiad cynharach, mae'r tîm codio clinigol wedi'i gyd-leoli ar yr un coridor â'r mwyafrif o ysgrifenyddion meddygol a rhai o feddygon ymgynghorol yr Ymddiriedolaeth. Roedd staff meddygol yn cael eu gwneud yn ymwybodol o leoliad swyddfa'r tîm codio clinigol fel rhan o'r sesiynau hyfforddi ymwybyddiaeth o godio clinigol (Argymhelliad 3a). |
| c) Annog staff codio clinigol i ymgysylltu â chlinigwyr yn y broses ddilysu ac ymweld ag ardaloedd clinigol. | Mai 2014 | Wedi'i roi ar waith | Yn 2017, datblygodd yr Ymddiriedolaeth ganllawiau ar gyfer codio gweithgarwch radiotherapi yn glinigol gyda mewnbwn a chyngor yn cael eu darparu gan y Pennaeth Cynllunio Radiotherapi yng Nghanolfan Ganser Felindre. Datblygwyd y canllawiau i helpu i wella cywirdeb codio clinigol ar gyfer gweithgarwch radiotherapi, oherwydd ei gymhlethdod. Yn ei adroddiad yn 2018-19, amlygodd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru fod cywirdeb codau a aseinir ar gyfer triniaeth cemotherapi a radiotherapi wedi gwella a bod yr adolygiad heb ganfod unrhyw wallau yn y naill arbenigedd na'r llall. Yn ystod ein hadolygiad diweddar, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod y tîm codio clinigol yn codi unrhyw ymholiad y mae'n ei gael ynghylch cyfnod o ofal naill ai'n uniongyrchol gyda'r clinigwr neu drwy Brofforma Dilysu. Meddai'r Ymddiriedolaeth wrthym, pe bai patrwm o ymholiadau'n cael ei godi, byddai'r Rheolwr Codio Clinigol yn camu i mewn i gymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r mater. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu â’r Bwrdd**<br>R4: Codi proffil codio clinigol ar lefel Bwrdd yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau bod goblygiadau codio clinigol ar gyfer rheoli perfformiad, a’r prosesau rheoli ehangach yn y GIG, yn cael eu deall yn llawn. Dylai hyn gynnwys: | | | |
| a) Symleiddio llinellau atebolrwydd ar gyfer codio clinigol i’r Bwrdd i sicrhau bod materion proffesiynol a gweithredol yn cael eu cydgysylltu. | Medi 2014 | Ar y gweill | Nid yw’r llinellau atebolrwydd am godio clinigol wedi newid ers ein hadolygiad yn 2014. Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwybodeg sydd â chyfrifoldeb gweithredol am godio clinigol ond nid yw’n gyfrifol am y tîm codio clinigol. Caiff y tîm ei reoli o ddydd i ddydd gan y Rheolwr Codio Clinigol, sy’n atebol i Bennaeth Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth Canolfan Ganser Felindre, sydd yn ei dro’n atebol i Gyfarwyddwr Canolfan Ganser Felindre. Mae Cyfarwyddwr Canolfan Ganser Felindre yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd ond nid yw’n rhan o’r Tîm Gweithredol.<br>Mae’r Ymddiriedolaeth yn cydnabod nad yw’r llinellau atebolrwydd am godio clinigol mor syml ag y gallent fod ond dywedodd wrthym fod y trefniadau’n gweithio a bod materion gweithredol yn cael eu codi ar lefel y Bwrdd pan fo angen.<br>Mae’r Ymddiriedolaeth wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o bortffolios o gyfrifoldebau aelodau’r tîm gweithredol. Hefyd, mae’r Ymddiriedolaeth wrthi’n cynnal adolygiad ar wahân o’r swyddogaeth Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth. Bydd yr adolygiad o Reoli a Thechnoleg Gwybodaeth yn ystyried y swyddogaethau Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth ar wahân yn nwy is-adran yr Ymddiriedaeth (Canolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru) ac yn nodi a ddylid parhau i weithredu’r ddwy swyddogaeth Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth ar wahân, ynteu a oes manteision i gyfuno o leiaf rai o’r adnoddau Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth. Nes bod y ddau adolygiad wedi’u cwblhau, nid yw’n glir sut y byddant yn effeithio ar y llinellau atebolrwydd ar gyfer codio clinigol. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu â'r Bwrdd**<br>R4: Codi proffil codio clinigol ar lefel Bwrdd yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau bod goblygiadau codio clinigol ar gyfer rheoli perfformiad, a'r prosesau rheoli ehangach yn y GIG, yn cael eu deall yn llawn. Dylai hyn gynnwys: | | | |
| b) Darparu deunydd briffio byr sy'n amlinellu'n glir ystyr codio clinigol a goblygiadau codio clinigol gwael (gan adlewyrchu amseroldeb, cyflawnrwydd a chywirdeb) ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol. | Mai 2015 | Yn hwyr | Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym nad oes papur briffio penodol wedi cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r argymhelliad a wnaed gennym yn 2014. Fodd bynnag, yn dilyn ein hadolygiad blaenorol, fe wnaed achos llwyddiannus o blaid adnoddau codio clinigol ychwanegol (Argymhelliad 2a) a oedd yn seiliedig ar yr angen i wella cywirdeb codio clinigol. Mae perfformiad codio clinigol diweddar wedi bod yn mynd y tu hwnt i dargedau Llywodraeth Cymru, ac felly mae'r angen i adnabod goblygiadau codio clinigol gwael yn llai nag ar adeg ein hadroddiad yn 2014.<br>Fodd bynnag, rydym yn dal i deimlo y byddai papur briffio o fudd. Canfu ein arolwg o aelodau'r Bwrdd y byddai pedwar allan o saith aelod o'r Bwrdd yn ei chael yn ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth. Hefyd, byddai'r papur yn rhoi cyfle i amlygu perfformiad cadarnhaol o ran codio clinigol a darparu sicrwydd ynghylch unrhyw wybodaeth a gafwyd o ddata codio clinigol. |
| c) Sicrhau bod papurau a ategir gan ddata clinigol wedi'i godio yn cynnwys datganiad sy'n amlinellu cadernid y data. | Yn barhaus | Ar y gweill | Yn ystod ein gwaith diweddar, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod papurau sy'n nodi data ynghylch perfformiad codio clinigol yn cynnwys datganiad ategol am gadernid y data. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau hefyd bod unrhyw wybodaeth ychwanegol a danategir gan ddata ynghylch codio clinigol (nid dim ond y data ynghylch perfformiad codio clinigol) yn nodi cadernid y data, hyd yn oed os yw hyn yn cadarnhau'r perfformiad cadarnhaol ac yn rhoi sicrwydd bod y data ynghylch codio clinigol yn ddibynadwy. |

| Argymhelliad | Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu â’r Bwrdd**<br>R4: Codi proffil codio clinigol ar lefel Bwrdd yr Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau bod goblygiadau codio clinigol ar gyfer rheoli perfformiad, a’r prosesau rheoli ehangach yn y GIG, yn cael eu deall yn llawn. Dylai hyn gynnwys: | | | |
| d) Darparu adborth rheolaidd ar berfformiad codio clinigol yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru. | Medi 2014 | Wedi’i roi ar waith | Canfu ein hadolygiad yn 2014 fod gan godio clinigol broffil isel yn yr Ymddiriedolaeth, ac nid oedd perfformiad codio clinigol yn cael sylw ar lefel y Bwrdd na’i is-bwyllgorau.<br>Ers hynny, mae proffil codio clinigol wedi cynyddu’n sylweddol. Caiff adroddiad ar godio clinigol yn yr Ymddiriedolaeth, sy’n darparu data ynghylch y duedd mewn perfformiad o ran cyflawnrwydd a chywirdeb, ei gyflwyno i bob Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth. Mae’r adroddiad yn cynnwys crynodeb byr o unrhyw faterion perthnasol i gael eu hystyried gan y Pwyllgor, megis ynghylch unrhyw faterion sy’n ymwneud â’r gweithlu a pherfformiad. Os bydd y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth yn teimlo’r angen i godi unrhyw faterion gyda Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, gallant wneud hynny yn adroddiad amlygu’r Pwyllgor ar gyfer y Bwrdd.<br>Mae’r adroddiad ar berfformiad codio clinigol hefyd yn eitem sefydlog ar agenda Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Canolfan Ganser Felindre. Hefyd, mae holl adroddiadau codio clinigol Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru yn cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio.<br>Mae’r mesur perfformiad sy’n ymwneud â chyflawnrwydd codio clinigol wedi’i gynnwys ar adroddiad yr Ymddiriedolaeth ar berfformiad hefyd, sy’n cael ei ystyried ym mhob cyfarfod Bwrdd, ac ym mhob cyfarfod a gynhelir gan dri o is-bwyllgorau’r Bwrdd. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

# Atodiad 2

## Canlyniadau’r Arolwg o Aelodau’r Bwrdd

Cafwyd ymatebion oddi wrth saith aelod o’r bwrdd yn yr Ymddiriedolaeth. Ceir dadansoddiad o’r ymatebion isod.

Arddangosyn 7: cyfradd bodlonrwydd ar agweddau ar godio

| | **Pa mor fodlon ydych chi ar yr wybodaeth yr ydych yn ei chael am gadernid trefniadau codio clinigol yn eich sefydliad?** | | **Pa mor fodlon ydych chi bod eich sefydliad yn gwneud digon i sicrhau bod trefniadau codio clinigol yn gadarn?** | |
|---|---|---|---|---|
| | Yr Ymddiriedolaeth Hon | Cymru Gyfan | Yr Ymddiriedolaeth Hon | Cymru Gyfan |
| Cwbl fodlon | 2 | 6 | 2 | 5 |
| Bodlon | 3 | 34 | 2 | 40 |
| Ddim yn fodlon nac yn anfodlon | 2 | 46 | 3 | 46 |
| Anfodlon | – | 10 | – | 4 |
| Cwbl anfodlon | – | – | – | 1 |
| **Cyfanswm** | **7** | **96** | **7** | **96** |

Arddangosyn 8: cyfradd ymwybyddiaeth o ffactorau sy’n effeithio ar gadernid codio clinigol

| | **Pa mor ymwybodol ydych chi o’r ffactorau a all effeithio ar gadernid trefniadau codio clinigol yn eich sefydliad?** | |
|---|---|---|
| | Yr Ymddiriedolaeth Hon | Cymru Gyfan |
| Ymwybyddiaeth lawn | 2 | 26 |
| Peth ymwybyddiaeth | 4 | 50 |
| Ymwybyddiaeth gyfyngedig | 1 | 17 |
| Dim ymwybyddiaeth | – | 3 |
| **Cyfanswm** | **7** | **96** |

Arddangosyn 9: lefel pryder a defnyddiadwyedd hyfforddiant

| | Ydych chi'n pryderu bod eich sefydliad yn rhy barod i briodoli tanberfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol i broblemau gyda chodio clinigol? | | Ydych chi'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth allweddol am berfformiad? | |
|---|---|---|---|---|
| | Yr Ymddiriedolaeth Hon | Cymru Gyfan | Yr Ymddiriedolaeth Hon | Cymru Gyfan |
| Ydw | – | 8 | 4 | 77 |
| Nac ydw | 7 | 84 | 3 | 19 |
| **Cyfanswm** | **7** | **92** | **7** | **96** |

# Atodiad 3

## Ymateb yr Ymddiriedolaeth i'n hargymhelliad newydd

Arddangosyn 10: ymateb y rheolwyr i argymhelliad 2019

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Defnyddio data codio clinigol i gefnogi gwelliant**<br>A1 Adolygu i ba raddau y mae data clinigol wedi'i gofio'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ganfod a allai'r Ymddiriedolaeth wneud mwy o ddefnydd o'r data i gefnogi gwelliant. | Bydd adolygiad o'r data codio clinigol presennol yn cael ei gwblhau.<br><br>Bydd yr adolygiad yn cynnwys asesiad o'r defnydd pellach o ddata i gefnogi gwelliant. | Rhagfyr 2019 | Rheolwr Codio Clinigol/ Pennaeth Gwybodaeth |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru